

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_

Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Exodus 16: 1-32



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 6:35

Gofynnwch am  
help i chwilio am  
yr adnod hon.

## Stori 1 Duw'n rhoi bwyd i'r Israeliaid

Roedd Duw wedi bod mor dda wrth yr Israeliaid! Mae'n anodd credu eu bod wedi dechrau cwyno cyn pen dim. Roedden nhw wedi bwyta'r holl fwyd roedden nhw wedi ei gario, felly dyma nhw'n dechrau achwyn wrth Moses. Pe baen nhw wedi aros yn yr Aifft, fydden nhw ddim wedi bod yn newynu, meddent wrth Moses. Trueni nad oedden nhw'n barod i ymddiried y byddai Duw yn eu helpu! Roedd Ganddo gynllun arbennig i sicrhau y byddai bwyd ar gael i'w bobl Ef bob amser.



**C** Rhowch ✓ neu ✗ wrth ymyl pob brawddeg i ddangos a yw'n gywir neu'n anghywir

Roedd y bobl yn ymddiried yn Nuw am eu bwyd. ....  
Byddai'n well ganddynt fod nôl yn yr Aifft. ....  
Dechreuon nhw gwyno wrth Moses. ....

Sul	Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad
✓	✓	✓	✓	✓	✓✓	✗

Esboniodd Duw wrth Moses sut y byddai Ef yn anfon bara o'r Nefoedd. Roedd y bobl i gasglu'r bara bob bore. Ar y chweched dydd o bob

wythnos, roedd rhaid iddyn nhw gasglu dwywaith gymaint, er mwyn cael digon dros y Sabbath (diwrnod arbennig Duw). Bob nos hefyd, byddai Duw'n rhoi cig iddyn nhw (gweler adnod 13).




Fore trannoeth, roedd pawb yn rhyfeddu at yr hyn oedd i'w weld. Gorweddai caenen wen, denau fel rhew dros y tir. Esboniodd Moses mai bara arbennig o'r Nefoedd oedd y cen gwyn. Roedd pob un i gasglu digon ar gyfer y bobl oedd yn byw yn ei babell ac yna'i goginio. Doedd neb i gadw dim tan y diwrnod wedyn. Yn anffodus, anufuddhaodd rhai i orchymyn Duw. "Manna" oedd yr enw a roddodd y bobl ar y bara arbennig hwn. Roedd rhaid ei fod yn flasus oherwydd dywed y Beibl ei fod yn blasu fel mêl!

Darparodd Duw fanna ar gyfer yr Israeliaid hyd nes iddynt ddod i ben eu taith.

**C Defnyddiwch y cliwiau isod i'ch helpu i lanw'r atebion ar y Grid Geiriau.**

1. Roedd y bara'n gorwedd ar y ddaear yn y .....
2. Cawsant gig ..... gan Dduw gyda'r nos.
3. Daeth y bara o'r .....
4. Roedd yn blasu fel.....
5. Doedd dim bara ar y dydd .....



12

**C Copiwch y 5 llythren dan y \* er mwyn sillafu enw'r bara.**

\_\_\_\_\_\*

Flynyddoedd lawer wedi hyn, esboniodd Iesu mai Ef yw Bara'r Bywyd a ddaeth o'r Nef. Cadwodd y manna yr Israeliaid yn fyw wrth iddyn nhw deithio drwy'r anialwch. Daeth yr Arglwydd Iesu i lawr o'r Nefoedd i farw dros ein pechodau er mwyn i ni gael bywyd tragwyddol. Pan fyddwn yn ymddiried ynddo Ef, gallwn fod yn sicr Ei fod yn cwrdd â'n holl anghenion.



**C Lliwiwch yr Adnod Allweddol**

Dyweddodd Iesu,

“Myfi yw  
Bara'r  
Bywyd.”

2